

Protocol ar gyfer Rheoli Ymchwiliadau Diogelu Oedolion ar Raddfa Fawr

Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg	Dyddiad: Rhagfyr 2019	Statws: Cymeradwywyd A7 yn Rhagfyr 2019
Awdur: J Neale/Grŵp Gorchwyl Ymchwiliad Diogelu Oedolion ar Raddfa Fawr	Fersiwn Flaenorol: 12 Medi 2016	Dyddiad Adolygu: Rhagfyr 2022

1. CYFLWYNIAD

Diffiniad

Bydd Ymchwiliad Diogelu Oedolion ar Raddfa Fawr yn cael ei gynnal pan fydd;

- Nifer o oedolion sy'n wynebu risg yr honnir eu bod wedi cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, un ai mewn lleoliad gofal unigol neu ar safle sy'n cael ei wasanaethu gan yr un darparwr gwasanaeth (ni waeth pa asiantaeth sy'n comisiynu'r gofal neu os yw wedi'i drefnu'n breifat), **neu**
- Grŵp o oedolion sy'n wynebu risg yn ymddangos eu bod nhw wedi cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso gan un unigolyn neu grŵp o unigolion mewn ffordd sydd wedi cael ei threfnu a'i thargedu, **neu**
- Patrwm neu thema o gam-drin neu esgeuluso posibl gan ddarparwr gofal unigol yn ymddangos o ddata diogelu neu ddata monitro contractau.

Pwrpas

Pwrpas Ymchwiliad Diogelu Oedolion ar Raddfa Fawr yw;

- Sicrhau diogelwch a llesiant pob oedolyn sy'n wynebu risg, yn unigol ac ar y cyd
- Trefnu a chydlynu ymatebion amlasiantaeth i leihau'r risg o niwed a diogelu pob oedolyn arall a all wynebu risg

Bydd yn angenrheidiol i wahaniaethu rhwng arferion gwael, a dylid mynd i'r afael â'r rhain drwy'r broses monitro contractau ac Uwchgyfeirio Pryderon/Cyflawniad Darparwyr, ac achosion o gam-drin, a ddylai cael eu hymchwilio o dan y protocol hwn. Fodd bynnag, gan fod y ddwy broses yn gorgyffwrdd yn sylweddol, bydd angen i'r Grŵp Gweithredu Amlasiantaeth a'r Ymchwiliad Diogelu Oedolion ar Raddfa Fawr gyfathrebu'n effeithiol, oherwydd mae'n bosibl y bydd camau gweithredu'r ddwy broses yn digwydd ar yr un pryd.

Ymdrinnir â phob pryder unigol sy'n ymwneud â diogelu oedolion gan ddilyn gweithdrefnau diogelu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a chan gydymffurfio â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a gweithdrefnau Diogelu Oedolion Cwm Taf Morgannwg. **Nid yw protocol yr Ymchwiliad Diogelu Oedolion ar Raddfa Fawr yn disodli'r gweithdrefnau hyn,** ond bwriedir iddo wella cyfathrebu amlasiantaeth, cydlynu a sicrhau bod yr adnoddau priodol ar gael pan fydd achos o gam-drin ar raddfa fawr yn cael ei amau. Dylai'r broses o ddiogelu unigolion yn uniongyrchol ac ymchwilio i achosion unigol barhau yn y ffordd arferol.

2. Y GRŴP RHEOLI STRATEGOL

Gall Ymchwiliad Diogelu Oedolion ar Raddfa Fawr gynnwys ystod eang o asiantaethau a nifer o brosesau ac ymchwiliadau diogelu oedolion. Hefyd, gall yr

ymchwiliad groesi ffiniau mwy nag un awdurdod lleol a chynnwys gwasanaethau nad ydynt wedi'u comisiynu gan yr Awdurdodau Lleol na Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Felly, mae'n hollbwysig fod prosesau o'r fath yn cael eu cydlynu a'u rheoli'n llym.

Dylid dwyn achosion tybiedig o gam-drin lluosog neu gam-drin sydd wedi'i drefnu i sylw rheolwr dynodedig yr awdurdod lleol a'r uwch dditectif dynodedig yn Heddlu De Cymru sy'n gyfrifol am Ddiogelu Oedolion, cyn gynted ag sy'n bosibl.

Cam 1: Penderfynu a ddylid sbarduno Ymchwiliad Diogelu Oedolion ar Raddfa Fawr

Bydd y swyddogion hyn yn cymryd cyfrifoldeb dros gychwyn protocol yr Ymchwiliad os yw'n briodol, ac yn cymryd cyfrifoldeb hefyd dros hysbysu uwch reolwr yr asiantaeth berthnasol. Os yw'n ymddangos y gellid bodloni'r meini prawf ar gyfer cychwyn ymchwiliad ar raddfa fawr, rhaid i reolwr yr awdurdod lleol a'r uwch dditectif drafod y pryderon a phenderfynu a ddylid gweithredu'r protocol ai peidio. Yn y naill achos neu'r llall, bydd rheolwr yr awdurdod lleol yn cadw cofnod o'r penderfyniad a wnaed a'r rhesymeg drosto.

Bydd yr uwch reolwr ym mhob asiantaeth yn sicrhau bod adnoddau priodol yn cael eu defnyddio ac y bydd staff yn cael y cymorth angenrheidiol. Bydd y penderfyniad ynglŷn â gweithredu'r protocol hwn yn cael ei wneud yn seiliedig ar y canlynol;

- a yw'n bodloni'r diffiniad, **ac**
- na ellir rheoli'r pryderon drwy'r prosesau diogelu unigol, y broses Uwchgyfeirio Pryderon neu drwy reoli achosion unigol yn unig, **a**
- bod angen cynnal gwaith cydlynu a chynllunio rhyngasiantaethol cymhleth.

Cam 2: Y Cyfarfodydd Rheoli Strategol Cychwynnol a Dilynol

Bydd gan y Rheolwr Diogelu Oedolion dynodedig o Gyngor Rhondda Cynon Taf, Cyngor Merthyr Tydfil neu Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gyfrifoldeb cydlynu cyffredinol trwy gydol yr Ymchwiliad Diogelu Oedolion ar Raddfa Fawr, a bydd yn:

- Cadw cyswllt ag Uned Busnes Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg i drefnu cyfarfod Grŵp Rheoli Strategol cychwynnol o fewn 2 ddiwrnod gwaith o'r penderfyniad i weithredu'r protocol hwn, a bydd wedyn yn trefnu cyfarfodydd rheolaidd bob 6-8 wythnos man lleiaf, er mwyn sicrhau bod asiantaethau yn cyfathrebu â'i gilydd, yn cydlynu gwaith ac yn llunio adroddiadau cynnydd mewn ffordd gadarn. Mae awgrym o agenda ynghlwm fel Atodiad 1. Bydd gweinyddwr Uned Busnes Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg yn cadw cofnodion pob cyfarfod ac yn eu cylchredeg, a bydd yn cadw cofnod canolog o'r holl gyfarfodydd yn ymwneud â'r Ymchwiliad Diogelu Oedolion ar Raddfa Fawr.

- Cydlynu gwaith ymchwilio nad yw'n ymwneud â throedd, nodi unrhyw beth sy'n rhwystro cynnydd a gweithio â phartneriaid i sicrhau adnoddau ychwanegol os oes angen
- Gweithredu fel pwynt cyfathrebu canolog mewn perthynas â'r Ymchwiliad Diogelu Oedolion ar Raddfa Fawr
- Adrodd yn ôl i Bwyllgor Gweithredol y Bwrdd
- Ystyried a ddylai'r Grŵp Rheoli Strategol gael ei gadeirio gan y swyddog dynodedig ar gyfer Awdurdod Lleol arall yng Nghwm Taf Morgannwg os yw'r pryderon yn ymwneud â lleoliad sy'n cael ei weithredu'n uniongyrchol gan yr Awdurdod Lleol Cartref.

Bydd y cyfarfod cychwynnol hwn yn ystyried y canlynol;

- nifer a natur y pryderon sydd y gwyddys amdanynt yn barod, a sut mae'r achosion hynny wedi'u rheoli, ac yn cael eu rheoli nawr
- p'un a oes oedolion eraill sy'n wynebu risg a allai hefyd fod yn cael eu cam-drin neu wedi cael eu cam-drin, a sut i reoli'r posibilrwydd hwnnw
- sut gellir rhoi mesurau diogelu ar waith tra bod ymchwiliadau troseddol yn mynd rhagddynt.

Bydd y Grŵp Rheoli Strategol yn cytuno hefyd ar ddulliau cyfathrebu ac atebolrwydd ar gyfer pob asiantaeth a'r Bwrdd Diogelu: bydd hyn yn cynnwys ystyried yr angen am ddatganiadau i'r cyfryngau a phroses uwchgyfeirio pe bai problemau yn codi na ellir eu datrys gan y Grŵp. Bydd pob Grŵp Rheoli Strategol yn llunio Cylch Gorchwyl arbennig ar gyfer yr Ymchwiliad Diogelu Oedolion ar Raddfa Fawr penodol, a fydd yn cynnwys pob un o'r pwyntiau hyn ac yn nodi amserlen gychwynnol gytûn ar gyfer cyfarfodydd hefyd.

Aelodau Craidd y Grŵp Rheoli Strategol

- Rheolwr Diogelu'r Awdurdod Lleol lle digwyddodd yr achos honedig o gam-drin (Cadeirydd y Grŵp Rheoli Strategol fel arfer)
- Pennaeth Diogelu'r Bwrdd Iechyd Lleol
- Ditectif Arolygydd Heddlu De Cymru dros Ddiogelu'r Cyhoedd
- Rheolwr Comisiynu'r Awdurdod Lleol
- Rheolwr Comisiynu'r Bwrdd Iechyd Lleol
- Arolygiaeth Gofal Cymru/Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Rheolwyr gwasanaethau Rheoli Gofal yr Awdurdod Lleol
- Cynrychiolaeth o Uned Busnes Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg
- Asiantaethau/gweithwyr proffesiynol eraill i'w cyfethol yn ôl yr angen

Mae templed ar gyfer Cylch Gorchwyl y Grŵp Rheoli Strategol wedi'i atodi fel Atodiad 2.

Cyfathrebu gyda Darparwyr, Defnyddwyr Gwasanaethau a'u Teuluoedd/Eiriolwyr

Cyfathrebir â darparwyr gofal drwy'r broses diogelu unigol a'r broses Uwchgyfeirio Pryderon. Bydd y Grŵp Rheoli Strategol yn ystyried ym mhob cyfarfod p'un a oes angen unrhyw gyfathrebu ychwanegol â'r Darparwr.

Bydd defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd neu eiriolwyr yn ganolog i'r ymchwiliad ar raddfa fawr. Byddant yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yr ymchwiliadau a deilliannau'r rhai sy'n cyflawni'r drosedd gan y Cydlynnydd Arweiniol Diogelu (Rheolwr Arweiniol Dynodedig) a fu â chyfrifoldeb dros reoli eu hachos.

Cam 3: Cyfarfod terfynol y Grŵp Rheoli Strategol

Bydd cyfarfod strategaeth terfynol ynghylch yr Ymchwiliad Diogelu Oedolion ar Raddfa Fawr yn cael ei gynnal pan fydd yr holl ymchwiliadau (gan gynnwys ymchwiliadau troseddol) wedi'u cwblhau. Diben y cyfarfod hwn fydd ystyried deilliannau'r ymchwiliadau troseddol a di-drosedd ac ystyried a oes angen cymryd camau gweithredu pellach. Bydd y cyfarfod hwn yn penderfynu a ellir cau'r Ymchwiliad Diogelu Oedolion ar Raddfa Fawr.

Er y bydd cynlluniau diogelu ar waith ar gyfer yr unigolion sydd wedi'u heffeithio, mae'n bosib y bydd gofyn cymryd camau eraill, fel:

- Camau gweithredu amlasiantaeth e.e. newidiadau i bolisiâu, gweithdrefnau neu arferion.
- Camau gweithredu cytundebol a chomisiynu, drwy Uwchgyfeirio Pryderon neu gynlluniau gweithredu i wella'r gwasanaeth.
- Ystyried p'un a oes angen Adolygiad Ymarfer Oedolion.
- Camau gweithredu parhaus gan y Rheoleiddiwr
- Ymchwiliad pellach gan yr heddlu neu ymchwiliad di-drosedd.

Bydd y cyfarfod hefyd yn gwerthuso'r broses trwy ystyried;

- Beth gafodd ei reoli'n llwyddiannus yn ystod yr ymchwiliad hwn?
- Beth allem ni fod wedi'i wneud yn well a beth ddylid ei wneud yn wahanol y tro nesaf?
- A oedd Protocol yr Ymchwiliadau Diogelu Oedolion ar Raddfa Fawr o gymorth?
- A oes angen i'r Protocol neu'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y Grŵp Rheoli Strategol gael eu hadolygu?

- A oes unrhyw broblemau trawsffiniol neu unrhyw faterion lleol pwysig y gellir eu datrys gan y Bwrdd Diogelu Oedolion yn unig?

Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei gofnodi gan Uned Busnes Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg hefyd, a bydd adroddiad gwerthuso'n cael ei gynhyrchu ar gyfer Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei rannu gydag ymarferwyr trwy Fforwm Ymarferwyr Amlasiantaeth.

3. ADOLYGIAD O BROTOCOL YMCHWILIADAU DIOGELU OEDOLION AR RADDFA FAWR

Bydd y Protocol hwn yn cael ei adolygu bob dwy flynedd.

Atodiad 1 - Fformat yr Agenda ar gyfer cyfarfod cyntaf y Grŵp Rheoli Strategol ar gyfer Ymchwiliadau Diogelu Oedolion ar Raddfa Fawr

Grŵp Rheoli Strategol ar gyfer Ymchwiliadau Diogelu Oedolion ar Raddfa Fawr

TEMPLED YR AGENDA

Datganiad Cyfrinachedd

Wrth arwyddo'r daflen bresenoldeb, mae pawb sy'n bresennol yn cytuno i gadw at y datganiad cyfrinachedd canlynol:

"Mae'r materion sy'n cael eu trafod yn gyfrinachol i aelodau'r cyfarfod a'r asiantaethau y maent yn eu cynrychioli. Dim ond er budd pennaf yr oedolion sy'n wynebu risg y cânt eu rhannu.

Caiff cofnodion y cyfarfod eu cylchredeg ar y ddealltwriaeth bod rhaid eu cadw'n gyfrinachol, a'u storio'n ddiogel.

O dan rai amgylchiadau, gall fod angen rhyddhau cofnodion y cyfarfod i'r llysoedd sifil a throseddol, cyfreithwyr, seiciatryddion, gweithwyr cymdeithasol eraill yr Awdurdod Lleol neu weithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â gofalu am oedolion sy'n wynebu risg".

1. Datganiad cyfrinachedd
2. Croeso ac Ymddiheuriadau
3. Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth

4. Trosolwg o'r achos i'w ystyried:
 - a. Nifer a natur y pryderon sydd eisoes yn hysbys a threfniadau rheoli
 - b. Nodi oedolion eraill sy'n wynebu risg a chytuno sut y mae modd rheoli hyn
 - c. Cytuno ar fesurau diogelu i'w rhoi ar waith
5. Amserlenni, cerrig milltir a threfniadau adrodd
6. Trefniadau cyfathrebu:
 - a. Y Cyfryngau
 - b. Darparwyr
 - c. Defnyddwyr Gwasanaethau, Teulu, Eiriolwyr
7. Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol

Atodiad 2 - Cylch Gorchwyl y Grŵp Rheoli Strategol ar gyfer Ymchwiliadau Diogelu Oedolion ar Raddfa Fawr

CYLCH GORCHWYL

Grŵp Rheoli Strategol ar gyfer Ymchwiliadau Diogelu Oedolion ar Raddfa Fawr

1. CYFLWYNIAD

Cynhyrchwyd y ddogfen hon er mwyn cefnogi swyddogaeth y Grŵp Rheoli Strategol a sefydlwyd o dan Brotocol Cwm Taf Morgannwg ar gyfer Rheoli Ymchwiliadau Diogelu Oedolion ar Raddfa Fawr. Bydd y Grŵp Rheoli Strategol yn paratoi Cylch Gorchwyl pwrpasol ar gyfer pob Ymchwiliad Diogelu Oedolion ar Raddfa Fawr, sydd hefyd yn cyfeirio'n benodol at amgylchiadau a gofynion yr ymchwiliad hwnnw.

2. NOD Y GRŴP RHEOLI STRATEGOL

Nod cyffredinol y Grŵp yw sicrhau bod ymchwiliadau ar raddfa fawr i achosion honedig o gam-drin neu esgeuluso oedolion yn cael eu cydlynu ac yn cynnwys yr holl asiantaethau perthnasol a swyddogion sydd mewn swyddi digon uchel i wneud penderfyniadau ar ran eu hasiantaeth.

3. AMCANION

- Sicrhau bod cyfrifoldeb pob asiantaeth mewn ymchwiliad ar raddfa fawr yn eglur, nad yw swyddogaethau yn cael eu dyblygu ac na cheir bylchau yn y broses.
- Sicrhau bod yr holl asiantaethau perthnasol yn gysylltiedig a'u bod yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a deilliannau'r ymchwiliad
- Rheoli llif gwybodaeth rhwng asiantaethau
- Rheoli cyfathrebu ag oedolion sy'n agored sy'n wynebu risg, eu teuluoedd a'r cyhoedd yn gyffredinol.
- Sicrhau bod Uwch Swyddogion yr Heddlu, y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf, ynghyd ag Aelodau'r Cyngor ac Aelodau'r Bwrdd.
- Sicrhau bod adnoddau ar gael ym mhob asiantaeth er mwyn sicrhau bod ymchwiliadau'n dod i ben mewn modd amserol.
- Adolygu a gwerthuso'r Ymchwiliad Diogelu Oedolion ar Raddfa Fawr, a dysgu gwersi o hynny.

4. ATEBOLRWYDD

Bydd pob gweithiwr proffesiynol sy'n cael ei enwebu i fynychu a chyfranogi yn y Grŵp Rheoli Strategol yn atebol i'w asiantaeth ei hun ac i Fwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg

5. AELODAETH

Fel y nodir yn y Protocol.

6. AMLDER CYFARFODYDD

Ar ôl i'r Protocol Ymchwiliadau Diogelu Oedolion ar Raddfa Fawr gael ei sbarduno, bydd cyfarfod cyntaf y Grŵp Rheoli Strategol yn cael ei gynnal o fewn 2 ddiwrnod gwaith. Ar ôl hyn, bydd y Grŵp yn cyfarfod o leiaf bob 6-8 wythnos ac yn amlach na hynny os bydd angen. Bydd hyn yn parhau hyd nes bydd y Grŵp yn penderfynu cau'r Ymchwiliad. Wrth gau'r Ymchwiliad, bydd y broses yn cael ei gwerthuso a bydd y Cadeirydd yn llunio adroddiad ar gyfer y Bwrdd Diogelu.

7. ADOLYGU

Bydd y cylch gorchwyl hwn yn cael ei adolygu ar ôl i bob Ymchwiliad Diogelu Oedolion ar Raddfa Fawr ddod i ben neu bob blwyddyn.